CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 4 TACHWEDD 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, N Jones, S Hughes, R Edwards, R Davies, G Roberts, J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc), S Booth (Yr Eglwys yng Nghymru) a tri aelod o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Mummery (Cyngor Sir), A Evans	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb, hefyd Ms Sue Booth, Swyddog Cadwraeth a Datblygiad yr Eglwys. Dywedodd Ms Booth bod Eglwys Sant Gredifael yn cael ei rheoli gan Yr Eglwys yng Nghymru (Corff Cynrychioliadol Cymru yng Nghaerdydd). Mae'r eglwys yn dirywio ac yn ddiweddar maent wario ar atgyweirio'r to er mwyn osgoi gollyngiadau pellach, niwed i'r bedd. Mynychodd tua 150 o bobl y diwrnod agored yn ddiweddar. Mae'r eglwys gyda nifer o cynlluniau: agor canolfan stiwardiaeth, gosod toiledau, cegin a mynediad i'r anabl. Mae angen iddynt hefyd gael gwared ar rai seddau yn dilyn caniatâd gan y Gymdeithas Fictoraidd. Mae ganddynt £20,000 i'w wario ar y bedd (tomb chest) ac yn gweithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Mae tua £ 400,000 yn cael ei angen ar gyfer y cynllun cyfan gyda thua 75% yn arian grant. Awgrymwyd bod y Cyngor Cymuned yn ffurfio is-grŵp i weithio gyda Chyfeillion yr Eglwys, cynnwys y cyhoedd / y cyngor a chyfarfodydd chwarterol, y cyntaf bosibl ym mis Ionawr. Bydd Cyfeillion yr Eglwys yn cyfarfod yn gyntaf ac yn penderfynu ar gynnwys y cyngor. Ychwanegodd Ms Booth bydd yn bosibl i agor yr eglwys sawl gwaith y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau arbennig. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth Elusendai Penmynydd yn edrych ar datblygu y tai.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 1 Hydref 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng S Hughes yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Dol Fraint, Star (Ilwybr)** - Mewn llaw
4.2	**Cyflymder Penmynydd** - Ail drafod y mater dechrau y flwyddyn newydd
4.3	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
4.4	**Sant Gredifael** - Gweler uchod
4.5	**Tyllau Lon Bryn Ffynnon** - dywedodd y Clerc bod y Gang Cymunedol wedi llenwi y tyllau
4.6	**Elusendai Penmynydd** - gweler uchod
	Llofnod **Cadeirydd** **07.01.15**

5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C66F/SCR Rhybudd Penderfyniad Marchynys, Penmynydd - rhybudd gan y Cyngor Sir yn cadarnhau nid oes angen asesiad (Environmental Impact)
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Cynulliad Cenedlaethol Cymru - gwybodaeth yn unig - adolygiad o'r terfynau cyflymder ar cefnffyrdd
6.2	Grwp Cynefin - gwybodaeth yn unig - grantiau
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfynwyd talu Hacker Young £96.00 (archwilwyr allanol)
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
	Llofnod **Cadeirydd** **07.01.15**